

## GWERTHUSO SWYDDI GIG CYMRU - CANLLAW ARFER DA

### Proffiliau Cenedlaethol Gwerthuso Swyddi'r GIG a'r Teuluoedd o Swyddi

#### **Beth yw teulu o swyddi?**

Mae teulu o swyddi yn grŵp o swyddi sy'n perthyn yn agos i'w gilydd. Mae naw teulu o swyddi yn y cynllun gwerthuso swyddi.

#### **Pa deuluoedd o swyddi a ddefnyddir yng Nghynllun**

**Gwerthuso Swyddi'r GIG?** Gwasanaethau Gweinyddol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Ymarferwyr Clinigol, Gwasanaethau Brys, Gwasanaethau Gwyddor Iechyd, Nyrsio a Bydwreigiaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, Rheolwyr Proffesiynol, Gwasanaethau Cymorth.

#### **Beth yw Proffil Cenedlaethol?**

Mae proffiliau'n gweithio ar y sail bod swyddi yn bodoli yn y GIG sy'n safonol ac yn rhannu llawer o nodweddion cyffredin.

Mae proffiliau yn grynodedbau o rolau a werthuswyd ac mae swyddi'r GIG yn cael eu paru â'r rhain wrth benderfynu ar y band cyflog.

Gall proffiliau helpu i ddangos agweddau cyffredin ar rolau a'r potensial ar gyfer hyblygrwydd wrth ddylunio rolau newydd.

#### **Pam mae gennym ni broffiliau cenedlaethol a swydd-ddisgrifiadau?**

Nid yw proffiliau cenedlaethol yn swydd-ddisgrifiadau ac NI fwriedir iddynt gymryd lle swydd-ddisgrifiadau sefydliadol.

Yn yr un modd, ni fwriedir i labeli proffil gael eu darllen fel teitlau swyddi.

Mae gan swydd-ddisgrifiadau ddiben ar wahân i broffiliau cenedlaethol ac fe'u defnyddir ar gyfer recriwtio, diffinio anghenion hyfforddi a rheoli perfformiad.

#### **Beth yw Labeli Proffil Cenedlaethol?**

Defnyddir y rhain i gadw proffiliau grwpiau o swyddi gyda'i gilydd ac maent wedi'u cynllunio i fod yn ffordd gyson o ddangos strwythur proffiliau o fewn teulu o swyddi.

Mae defnyddio labeli Proffil Cenedlaethol yn osgoi'r angen am sawl system wahanol o labelu swyddi ym mhob Teulu o Swyddi.

Enw'r Teulu o Swyddi	Is-deuluoedd o swyddi (Grwpiau Galwedigaethol)	Labeli Proffil (Mathau o Rôl)
<b>Gwasanaethau Gweinyddol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gweinyddu Busnes a Phrosiectau</li> <li>2. Cyllid</li> <li>3. Adnoddau Dynol</li> <li>4. Gwasanaethau Gwybodaeth</li> <li>5. Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg</li> <li>6. Gwasanaethau Cyfreithiol</li> <li>7. Gwasanaethau Cleifion</li> <li>8. Cysylltiadau Cyhoeddus</li> <li>9. Ysgrifenyddol a Chlercaidd</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rolau prosiect, Rheolwr Busnes, Rheolwr Gweithrediadau</li> <li>2. Swyddogion Cyllid, Dadansoddwr Cyllid, Rheolwyr Cyllid</li> <li>3. Cynorthwy-ydd AD, Cynghorydd AD, Rheolwyr AD</li> <li>4. Technegydd llyfrgell, Llyfrgellwyr, Rheolwyr Llyfrgell</li> <li>5. Gweithredwr Teleffoni, Dadansoddwyr Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, Peirianwyr Technegol, Rheolwyr Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg</li> <li>6. Cyfreithwyr</li> <li>7. Swyddogion Codio clinigol, rolau Cofnodion Iechyd, Rheolwr Gwasanaeth Gwirfoddol</li> <li>8. Rolau cymorth a chyswllt cleifion, Swyddogion Cwynion, rolau Cyfathrebu</li> <li>9. Swyddogion clercaidd, rolau ysgrifenyddol, rheolwr swyddfa</li> </ol>
<b>Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPs)</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Staff therapi celf</li> <li>2. Caplaniaeth</li> <li>3. Rolau seicoleg glinigol</li> <li>4. Staff dieteteg</li> <li>5. Therapi generig</li> <li>6. Therapi galwedigaethol</li> <li>7. Orthoptyddion ac Optometryddion</li> <li>8. Ffisiotherapi</li> <li>9. Arbenigwyr chwarae</li> <li>10. Podiatreg</li> <li>11. Iechyd y cyhoedd - gwella iechyd</li> <li>12. Rolau radiograffeg</li> <li>13. Iechyd rhywiol</li> <li>14. Therapyddion Iaith a Lleferydd</li> <li>15. Ymarferwyr Theatr</li> </ol>	<p>Yn yr is-deulu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, mae labeli proffil yn cynnwys termau cyffredin i ddisgrifio'r ystod o rolau. Mae labeli nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiwr cymorth</li> <li>• Technegydd</li> <li>• Ymarferydd</li> <li>• Arbenigwr</li> <li>• Uwch</li> <li>• Rheolwr tîm</li> <li>• Prif swyddog</li> <li>• Ymgynghorydd/pennaeth gwasanaeth</li> </ul> <p>Mae Seicoleg Glinigol yn cynnwys rolau cwnselydd yn y grŵp.</p> <p>Mae gwella iechyd yn cynnwys swyddogaethau archwilio a llywodraethu clinigol yn ogystal â rolau iechyd y cyhoedd a gwella iechyd.</p>

Enw'r Teulu o Swyddi	Is-deuluoedd o swyddi (Grwpiau Galwedigaethol)	Labeli Proffil (Mathau o Rôl)
<b>Ymarferwyr Clinigol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymarferydd Clinigol - amlddisgyblaethol</li> <li>2. Cydymaith meddygol</li> </ol>	<p>Ychwanegwyd yn 2021 i helpu i baru rolau sy'n gweithredu mewn timau amlddisgyblaeth.</p> <p>Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys cymdeithion meddygol.</p>
<b>Gwasanaethau brys</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ambiwllans</li> </ol>	<p>Yn cynnwys y rhai sy'n delio â galwadau, anfonadau, ymarferwyr ambiwlans, parafeddygon a rolau rheoli.</p>
<b>Gwasanaethau Gwyddor Iechyd (HSS)</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Patholeg anatomegol</li> <li>2. Gweithwyr cymorth clinigol gwyddonwyr biofeddygol</li> <li>3. Sgrinio canser</li> <li>4. Gwyddorau clinigol</li> <li>5. Cytoleg</li> <li>6. Gwasanaethau deintyddol</li> <li>7. Cwnselwyr geneteg</li> <li>8. Gwyddor gofal iechyd</li> <li>9. Technoleg feddygol</li> <li>10. Orthoptyddion ac optometryddion</li> <li>11. Fferylliaeth</li> </ol>	<p>Mae labeli proffil teuluoedd o swyddi'r Gwasanaethau Gwyddor Iechyd yn cynnwys termau cyffredin i ddisgrifio'r ystod o rolau. Mae labeli nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiwr Cymorth</li> <li>• Technegydd</li> <li>• Ymarferydd</li> <li>• Arbenigwr</li> <li>• Uwch</li> <li>• Rheolwr Tîm</li> <li>• Prif swyddog</li> <li>• Ymgynghorydd/Pennaeth Gwasanaeth</li> </ul>
<b>Nyrsio a Bydwreigiaeth</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Proffiliau nyrsio cyfun</li> <li>2. Nyrsio deintyddol</li> <li>3. Ymwelwyr Iechyd</li> <li>4. Bydwreigiaeth</li> <li>5. Galw Iechyd Cymru</li> <li>6. Nyrsio a bydwreigiaeth generig</li> <li>7. Nyrsys Theatr</li> </ol>	<p>Mae labeli proffil yr is-deuluoedd o swyddi ym maes Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnwys termau cyffredin i ddisgrifio'r ystod o rolau. Mae labeli nodweddiadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithiwr Cymorth</li> <li>• Ymarferydd</li> <li>• Arbenigwr</li> <li>• Arweinydd Tîm</li> <li>• Uwch</li> <li>• Rheolwr Tîm</li> </ul>

Enw'r Teulu o Swyddi	Is-deuluoedd o swyddi (Grwpiau Galwedigaethol)	Labeli Proffil (Mathau o Rôl)
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prif swyddog</li> <li>• Ymgynghorydd</li> </ul>
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol Personol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gofal Cartref</li> <li>2. Gofal preswyl a gofal dydd</li> <li>3. Gwaith cymdeithasol</li> </ol>	<p>Mae'r grŵp hwn yn cynnwys rhai labeli sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir yn y grwpiau uchod.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys rolau gofalu, cydlynu, adsefydlu, a rolau rheoli gweithredol.</p>
<b>Gwasanaethau Cymorth</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ystadau a chynnal a chadw</li> <li>2. Gwasanaethau cymorth wedi'u cyfuno</li> </ol>	<p>Mae gwasanaethau cymorth yn cynnwys proffiliau generig a rhai sy'n annibynnol. Mae proffiliau generig wedi'u cynllunio i'w cymhwyso ar draws nifer o rolau.</p> <p>Mae rolau arlwygo a chaffael yn enghreifftiau o broffiliau annibynnol.</p> <p>Mae labeli proffil gwasanaethau cymorth yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithwyr Cymorth</li> <li>• Masnachwr</li> <li>• Arweinydd Tîm</li> <li>• Rheolwr Tîm</li> <li>• Swyddogion a Rheolwyr Ystadau</li> </ul>
<b>Rheolwyr Proffesiynol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rheolwyr proffesiynol</li> </ol>	<p>Mae'r proffiliau hyn wedi'u cynllunio i baru â rolau rheoli sy'n gyfrifol am wasanaethau clinigol a/neu dechnegol.</p> <p><b>Defnyddio'r proffiliau hyn ac asesu Gofal Cleientiaid Ffactor 6:</b>  Cadarnhaodd y Grŵp Gwerthuso Swyddi mai dim ond i rolau ymarferwyr gofal iechyd ag atebolrwydd clinigol am ddarparu gwasanaethau clinigol neu ofal cymdeithasol yn uniongyrchol y bwriedir cymhwyso lefel 6d a lefel 7 y ffactor 'Cyfrifoldeb am Ofal Cleifion'. Ni fwriedid iddynt fod yn berthnasol i rolau anghlinigol a'r rolau rheoli cyffredinol hynny sydd â chyfrifoldebau am ddarparu gwasanaethau clinigol.</p>

Enw'r Teulu o Swyddi	Is-deuluoedd o swyddi (Grwpiau Galwedigaethol)	Labeli Proffil (Mathau o Rôl)
		<i>Cyfeiriwch at y nodyn canllaw yn y ffactor Gofal Cleifion/ Cleientiaid cyn paru swyddi gan ddefnyddio'r proffiliau hyn.</i>